Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bro Dysynni
# Ysgol Craig y Deryn
# Llanegryn
# Tywyn
# Gwynedd
# LL36 9SG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Bro Dysynni. Mae'n cwrdd mewn ystafell hunangynhaliol yn Ysgol Craig y Deryn ym mhentref Llanegryn, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore ac 11.00 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 12 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae rhan fwyaf o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a lleiafrif ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2016. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol a chytbwys sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau ysgogol a difyr, sy'n creu dysgwyr hyderus ac annibynnol
- yr addysgu a holi bwriadus yr ymarferwyr yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu a chynnydd y plant
- gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i gefnogi iechyd, lles ac anghenion y plant
- ymarferwyr yn defnyddio'r adeilad, yr ardal allanol ac adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen a dyheadau'r plant

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i'r gwaith dyddiol a hirdymor
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i wireddu'r bwriadau pwrpasol sy'n bodoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi a herio'n synhwyrol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- gweithdrefnau hunanarfarnu effeithlon yn arwain at osod targedau bwriadus i wella'r ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol gan asiantaethau allanol i wella'u medrau personol
- partneriaethau pwrpasol ag asiantaethau arbenigol, rhieni a gofalwyr
- trefniadau effeithiol yn bodoli i drosglwyddo'r plant i fywyd yr ysgol a'r camau nesaf yn eu haddysg
- y pwyllgor rheoli'n gwneud defnydd effeithiol o gyllid a grantiau i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i wella'r adnoddau'n llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Amseru'r sesiynau torfol yn fwy effeithiol er mwyn cynnal diddordeb pob un plentyn

A2 Defnyddio asesiadau dyddiol yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, na'u lles. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol a chytbwys sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau a phrofiadau dysgu synhwyrol, sy'n targedu anghenion, dewisiadau a diddordebau'r plant yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r arweinydd yn cydlynu'r cynllunio'n effeithiol trwy ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio sefydlog a chyngor yr awdurdod lleol yn synhwyrol. O ganlyniad, mae'r systemau ar gyfer cynllunio'n ddyddiol ac yn y tymor hir yn effeithio'n bwrpasol ar brofiadau'r plant. Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu drwy chwarae. Er enghraifft, maent yn cymysgu bwydydd sych yn y gegin fwd a phlannu tatws mewn blwch gwydr yn hyderus.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drefnus ac yn ddeallus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda chyfarpar mathemategol, fel defnyddio tafol i bwyso dŵr a chreu llythrennau ar lawr y buarth gyda sialc. Mae'r gweithgareddau'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y plant ac yn deillio o'u dewisiadau personol a'u penderfyniadau mewn grŵp. O ganlyniad, mae'r tasgau dyddiol a ddarperir, ar draws yr holl feysydd dysgu, yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson, naill ai'n annibynnol neu dan arweiniad ymarferwr.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, chwaraewr cryno ddisg, camerâu a meicroffon. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn bwrpasol, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau'n llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod bod medrau Cymraeg y mwyafrif o'r plant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mynd i'r afael â hyn yn syth drwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau, trafod y tywydd ac ailadrodd ymadroddion syml yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, cyfleoedd i ddawnsio gwerin a dilyn tîm rygbi Cymru mewn pencampwriaethau rhyngwladol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol yn fwriadus wrth ganolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant. Maent yn gweithio’n ddiwyd â’i gilydd i ddarparu gweithgareddau difyr, sy’n cymell y plant i gydweithio a dysgu’n ymarferol. Er enghraifft, mae’r plant yn cael cyfleoedd cyson i yrru’n fywiog ar feiciau a cherbydau, trafod blas haggis o’r Alban gyda’i gilydd a phrintio patrymau o wahanol liwiau gyda blociau.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o’u hardal wledig a’r pentref a rolau pobl yn eu cymuned fel yr heddlu, ffermwyr, hylenyddion deintyddol a’r milfeddyg.

**Addysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn y gweithgareddau a ddarperir o’r eiliad y maent yn croesi trothwy’r lleoliad.

Mae’r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant, yn deall gofynion y cyfnod sylfaen ac yn cydweithredu’n effeithiol â’i gilydd. Maent yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd oedolyn a thasgau annibynnol y plant. O ganlyniad, maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy brofiadau ymarferol a thrwy chwarae. Enghreifftiau da o hyn yw taflu peli o bellter i mewn i fowlenni a’u rhifo a rhaglennu dyfais electronig i deithio ar drac sgwâr.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio’r plant yn gyson mewn tasgau ffocws. Maent yn holi’r plant yn fedrus ac yn rheolaidd sy’n effeithio’n gadarn ar eu medrau llythrennedd a rhifedd a’u medrau meddwl. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drin a thrafod nodweddion tai’r tri mochyn bach a rôl y blaidd â’r dannedd miniog yn y stori. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau torfol yn colli cyflymder ar adegau ac yn troi’n undonog. O ganlyniad, mae ychydig iawn o blant yn colli diddordeb yn y trafodaethau a bwriad y sesiwn.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau’r plant yn sefydlog a chadarn. Mae’r dystiolaeth yn cyfatebu’n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn dda, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae’r arweinydd yn cydlynu a chofnodi asesiadau’r ymarferwyr yn rheolaidd a chyson. Mae’r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol yn briodol i dalu sylw i lwyddiannau a meysydd i wella unigolion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon trylwyr i gynllunio’n uniongyrchol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth achlysurol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddechrau a diwedd y sesiynau. Yn ogystal, mae’r lleoliad yn darparu llyfrynnau ac adroddiadau defnyddiol i rieni pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i’r ysgol a chynnal cyfarfodydd ganddynt i drafod cynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio gweithgareddau penodol fel chwarae rôl yn y caffi yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau eraill a sut i drin pobl mewn sefyllfaoedd cyhoeddus. Drwy wneud hynny, mae’r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn fwriadus. O ganlyniad, mae’r arferion dyddiol hyn yn fuddiol i ethos cyffredinol y lleoliad a’r gweithgareddau sy’n digwydd ar y cyd, fel amser byrbryd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch yn ddyddiol, er enghraifft wrth i blant eistedd i frwsio’u dannedd a dweud diolch am eu bwyd a’u diod. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol iddynt weini a chynorthwyo ei gilydd er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. O ganlyniad, mae’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd bwyta ac ymhyfrydu yn eu rôl fel helpwr y dydd wrth arwain yr ailgylchu a gosod y cartonau llaeth.

Mae gan y lleoliad drefniadau cynhwysfawr i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae’r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach ac, o ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw’n heini yn rhan bwysig o ddiet synhwyrol a bywydau iachus. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, plastig, bwyd a cherdyn. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad afresymol. O ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni’r oedolion. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o’r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n agos ac yn arsylwi plant yn ofalus wrth nodi unrhyw bryderon. Maent yn gweithredu ar y rhain trwy gyfathrebu â rhieni a derbyn cyngor gan asiantaethau arbenigol i helpu symud ymlaen ag ymyrraeth benodol. Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion ffurfiol o sylwadau ychwanegol i'w helpu i olrhain cynnydd y plant hyn yn drylwyr ac yn rhannu’r wybodaeth gyda’r rhieni yn ddeallus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar. Mae’r ymarferwyr yn mabwysiadu agweddau cadarnhaol ac mae eu gweithgareddau dyddiol yn anelu’n gyson at greu amgylchedd ysgogol i’r plant. Maent yn darparu cymuned gynhwysol, lle mae pob

plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu a'r cyfarpar sydd ar gael. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cydnabod unigolrwydd ac anghenion y plant yn effeithiol.

Mae pwyslais clir gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali a darparu doliau o wahanol gefndiroedd ethnig yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau ac maent ar gael i bob plentyn ddewis eu defnyddio a'u rhoi heibio. Mae hyn yn hyrwyddo'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau parhaus, ffocws a thasgau i gyfoethogi yn gwneud defnydd da o'r adnoddau dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Gwelir hyn wrth iddynt wneud marciau a defnyddio'u medrau mathemategol yn ymarferol yng ngweithgareddau'r lleoliad, fel yr ardal adeiladu, trwy ddefnyddio rhidyllau dŵr a'r ardal dywod.

Mae'r adeilad yn rhan o ysgol gymharol newydd ac felly o ansawdd safonol iawn, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n ddiogel ac yn dilyn gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â diogelwch y safle yn fanwl. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd buddiol i blant dyfu planhigion yn ogystal â chyfarpar chwarae rôl fel y gegin fwd. Mae ardaloedd eang yr ysgol ar gael iddynt, sy'n cynnwys caeau ac ardaloedd natur, ar gyfer chwarae bywiog, ymholi ac ymchwilio.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad pwrpasol ac wedi sefydlu arferion trwyadl i weithdrefnau dyddiol y lleoliad. Mae hyn yn creu gwelliannau buddiol i'r ddarpariaeth. Mae ei gweledigaeth synhwyrol yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r gofal yn effeithio ar brofiadau a deilliannau'r plant yn dda.

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n drylwyr ar gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a gwella'r adnoddau er lles y plant. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n dda. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gydag ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. Maent yn llwyddo i gymell y plant i wella'u gwaith yn gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol, trwy eu haddysgu bwriadus.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â dechrau mireinio'r asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn well.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr, trwy eu cynllunio wythnosol, yn ffocysu ar gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant. O ganlyniad, maent yn creu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad a thu allan, i herio'r plant i berfformio ar eu

gorau. Er enghraifft, maent yn ysgogi'r plant trwy greu ardaloedd cuddio a darparu bowlenni enfawr metel i arbrofi â dŵr. Mae'r arweinydd hefyd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt drosgwlyddo i'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol a gweithgar iawn, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson a'u bod nhw'n gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r ymarferwyr yn ddoeth i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r pwyllgor ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl ac effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â bywyd y lleoliad i greu gwelliannau a gwella'r profiadau dysgu ymhellach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r agweddau sydd angen eu newid yn ystyrlon er lles y plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio holiaduron yn ddoeth ac yn gweithredu ar y canfyddiadau fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth i rieni. O ganlyniad, mae'r arferion hyn o fudd i'r lleoliad ac yn sicrhau darlun llawn o'r dysgu, y ddarpariaeth a'r prosesau rheoli.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant, y ddarpariaeth a'u rolau ym mywyd dyddiol a thymor hir y lleoliad. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol a phwrpasol i adnabod cryfderau a materion i'w gwella. Mae trylwyredd yr arferion hyn yn sicrhau pontio effeithiol rhwng yr hunanarfarniad a'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn arwain at newidiadau pwrpasol, sy'n sicrhau cynllunio strategol, buddiol a thrwyadl ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r cyngor ar sut i drefnu'r ardaloedd a'r meysydd dysgu, ynghyd â gosod yr adnoddau a'r cyfarpar, wedi creu amgylchedd dysgu effeithiol tu mewn a thu allan i'r adeilad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i gefnogi'r hyfforddiant a'r ddogfennaeth ac maent yn cynghori ar faterion rheolaethol yn effeithiol.

Cynhelir cyfarfodydd effeithiol â'r ysgol i gefnogi'r trosglwyddo i fywyd ysgol i'r plant. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn drefnus ac yn fuddiol i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain yn effeithiol ar faterion i wella'r lleoliad, trwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn dda ac yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian fel nosweithiau ffasiwn a chynigion llwyddiannus am gyllid grantiau o fusnesau'r ardal. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n bwrpasol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol.

Mae'r arferion arwain cadarn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu bwrpasol wedi'i sefydlu, sydd â diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell a'r ardal allanol yn achlysurol i ysbrydoli'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu a heriau diddorol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n llwyddiannus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn effeithiol ac yn creu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol yn ddoeth. O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Enghraifft o hyn yw'r cyfarpar TGCh diweddar sydd yn ymestyn medrau'r plant ymhellach a'r adnoddau newydd i hybu dealltwriaeth y plant o blannu a thyfu planhigion.

Gan fod y ddarpariaeth yn effeithiol a'r arweinyddiaeth yn bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |